| SWYDD-DDISGRIFIAD | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | Gweithiwr Preswyl Plant |
| **Portffolio** | Gwasanaethau Cymdeithasol - Gwasanaethau Integredig |
| **Yn atebol i'r** | Tîm Rheoli Cartrefi Preswyl Plant |
| **Lleoliad** | Cartrefi Preswyl Plant ar draws Sir y Fflint |
| **Cyfeirnod y Swydd/Rhif Adnabod** | |

## Pwrpas y Swydd

Creu amgylchedd cartref hapus a chefnogol trwy ddarparu profiad dysgu diogel a gofalgar i blant a phobl ifanc. Fel Gweithiwr Preswyl Plant, bydd gofyn i chi weithio ar sail rota 24/7, sy'n cynnwys gwaith sifft a chysgu i mewn.

Datblygu a chynnal perthnasoedd cadarnhaol a phroffesiynol gyda phlant, pobl ifanc (a theuluoedd) sy'n byw yn y Cartrefi Preswyl Plant sy'n cefnogi eu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol.

Darparu cymorth uniongyrchol amserol, dibynadwy ac ymatebol sy'n caniatáu i'r plentyn/person ifanc ddysgu ac ymarfer meddyliau, teimladau a gweithredoedd newydd yn y rhannau pwysicaf o'u bywydau, drwy wybodaeth therapiwtig a meithrin cydberthynas o ofal gwirioneddol sy'n creu awyrgylch hapus a diogel.

Cynorthwyo i ddarparu gofal a rheolaeth gyffredinol. Bydd gan bob person ifanc gynllun personol a rôl y Gweithiwr Preswyl Plant fydd cefnogi gweithredu'r cynllun o ddydd i ddydd a hyrwyddo anghenion (corfforol, emosiynol, cymdeithasol a deallusol) y plant a'r bobl ifanc trwy ddull gweithredu therapiwtig, wedi'i lywio gan drawma.

## Prif Gyfrifoldebau

- Gallu datblygu cydberthnasoedd proffesiynol dibynadwy gyda phlant a phobl ifanc i'w cadw'n ddiogel, gan sicrhau cydbwysedd rhwng galluogi a gosod ffiniau mewn modd meithringar, cefnogol a chyson.
- Dangos ymroddiad, natur agored a pharodrwydd i ymgymryd â'r ymagwedd tuag at y model gofal er mwyn hwyluso anghenion therapiwtig plant/pobl ifanc.
- Darparu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar y plentyn gan sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael gofal a chymorth sy'n ymateb i'w hanghenion unigol nhw ac sy'n eu cynnwys mewn materion a phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt.
- Creu amgylchedd cartrefol, cynnes, caredig a chyfeillgar gan sicrhau bod eich holl weithredoedd yn dryloyw ac yn agored i'w trafod yn rhan o oruchwyliaeth broffesiynol yn unol â'r Cod Ymarfer Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Cymdeithasol.
- Cyflawni dyletswyddau cysgu i mewn, gweithio oriau anghymdeithasol a chwblhau dyletswyddau effro drwy'r nos mewn lleoliadau amrywiol fel sydd angen er mwyn diwallu anghenion plant a phobl ifanc yn unigol neu fel rhan o grŵp.
- Cyfrannu tuag at osod gwaith achos unigol a gwaith achos grŵp ar waith gyda phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd sy'n eu cynnwys yn llawn ac yn adlewyrchu eu cryfderau, eu hanghenion a'r canlyniadau a ddymunir, fel y nodir yn y cynllun gofal unigol a'r cynllun lleoliad.

Rhaid i chi ddeall y cynllun a'ch rôl chi oddi mewn iddo a gweithio'n adeiladol gydag eraill sydd ynghlwm â'r cynllun, fel gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr eraill.

- Dilyn, adnabod, cofnodi a dehongli ffiniau a gosod terfynau o ran y plant a'r bobl ifanc sydd yn y llety ac ymateb i ymddygiad heriol gan edrych y tu hwnt i'r ymddygiad a deall beth yw'r rheswm drosto yn unol â pholisïau/gweithdrefnau gofal a rheoli yr uned.
- Datblygu cysylltiadau proffesiynol agos gyda staff eraill yr adran a staff asiantaethau a sefydliadau eraill ar sail ymarfer sy'n ymwneud â chydberthnasau i ddeall ac ymateb yn effeithiol i anghenion plant/pobl ifanc.
- Ymgymryd â rôl gweithiwr allweddol i blant/pobl ifanc unigol, fel y bo'n briodol, a mynd ati'n gyson ac yn weithredol i sicrhau gofal therapiwtig i blant a phobl ifanc.
- Cymryd rhan mewn rhaglenni goruchwyliaeth, adolygu perfformiad, hyfforddiant a rhaglenni datblygu a drefnir gan yr adran.
- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd staff a chyfarfodydd proffesiynol eraill a darparu adroddiadau ar lafar ac yn ysgrifenedig pan fo angen, cadw cofnodion a gweithio bob amser yn unol â datganiad o ddiben a swyddogaeth y cartref.
- Delio â materion ariannol o fewn y cartref yn unol â rheoliadau ariannol yr awdurdod.
- Gweithredu fel aelod o'r tîm gofal preswyl, cefnogi cydweithwyr a bod yn barod i dderbyn cefnogaeth fel bo'r angen.
- Gweithredu'n hyblyg, o fewn ffiniau, er mwyn sicrhau bod digon o weithwyr yn y cartref.
- Rhoi gwybod i gydweithwyr am ddatblygiadau, er enghraifft yn ystod cyfnod newid shifftiau.
- Adrodd am unrhyw gamweddau neu dystiolaeth sy'n ei awgrymu wrth eich rheolwr atebol neu berson priodol arall. Mae hyn yn cynnwys bod yn gyfarwydd ag:
  a. y ffactorau a allai arwain at niwed, camdriniaeth neu gamfanteisio
  b. arwyddion niwed neu gamdriniaeth bosib
  c. gweithdrefnau lleol
  ch. eich cyfrifoldeb chi os oes plentyn/person ifanc wedi'i niweidio neu ei gam-drin, neu mewn perygl o niwed neu gamdriniaeth.
  e. eich rôl chi i roi gwybod am unrhyw bryderon sydd gennych am ddiogelwch plentyn neu berson ifanc diamddiffyn
- Bod yn rhan o weithgareddau ymarferol sy'n angenrheidiol i gynnal y cartref a gosod safonau uchel o ran "creu cartref".
- Gofalu am ddeunydd, cyfarpar a thir yr uned.
- Gweithio fel rhan o dîm, rhannu cyfrifoldeb mewn modd teg a sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau a gweithdrefnau Diogelu

| **Goruchwylio/Rheoli Pobl** |
| --- |
| Dim. |
| **Gwiriadau Cyflogaeth/Gofynion Penodol h.y. y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd** |
| Mae'r swydd hon angen asesiad Iechyd a gwiriad manwl y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Sylwch efallai na fydd euogfarn yn eithrio ymgeiswyr rhag cael eu penodi, ond caiff ei ystyried fel rhan o'r broses recriwtio. |
| **Amodau Gweithio Arbennig** |
| Disgwylir i staff weithio ar sail rota 24/7, a fydd yn cynnwys gweithio ar benwythnosau, cysgu i mewn a sifftiau nos. |

| **Manylion am yr Unigolyn** | | |
|---|---|---|
| ***Mae'r manylion am yr unigolyn yn nodi'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad a ystyrir yn angenrheidiol i gyflawni'r swydd, ac fe'u defnyddir wrth lunio rhestr fer ar y cam cyflwyno cais a'r cam cyfweld. Mae'n bwysig felly eich bod yn dangos yn eich cais sut rydych yn bodloni pob un o'r gofynion hanfodol.*** | | |
| **Cymwysterau Academaidd/Proffesiynol** | **Hanfodol / Dymunol** | **Sut fydd hyn yn cael ei asesu?** |
| Byddwch wedi derbyn addysg dda at lefel TGAU, Gradd C mewn 5 neu fwy o bynciau neu QCF Lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol / Ymarfer Cymdeithasol (neu gyfwerth) | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| QCF- Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Plant a phobl ifanc neu gyfwerth neu allu i'w gwblhau o fewn 18 mis. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Byddwch wedi'ch cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, a meddu ar allu i gwblhau'r gofynion o fewn 6 mis | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Trwydded Yrru Gyfrifiadurol Ewropeaidd, ECDL | Dymunol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | | |
| Sicrhau bod yr holl waith yn cael ei wneud yn unol â gofynion statudol, h.y. RISCA, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Dealltwriaeth o weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan a sut mae hyn yn ymwneud â'r gwaith mewn cartref preswyl plant | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Dealltwriaeth o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Profiad o weithio mewn lleoliad preswyl i blant neu brofiad o weithio'n effeithiol gyda phobl ifanc sy'n ymddwyn mewn modd heriol, er mwyn lleihau risgiau a pheryglon trwy iaith a gweithredoedd minimalistaidd a hamddenol. | Dymunol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |

| | | |
|---|---|---|
| Dangos dealltwriaeth o arferion gofal plant preswyl ac arwyddion/symptomau camdriniaeth | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r materion sy'n wynebu pobl ifanc, datblygiad plant a phobl ifanc, y gallu i fagu plant, ffactorau amgylcheddol a ffactorau risg ac amddiffynnol | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Gallu datblygu cydberthnasoedd proffesiynol dibynadwy, sy'n cynnwys cynhesrwydd, diffuantrwydd a chysondeb o ran tôn llais ac iaith y corff sy'n cyfleu eu bod yn malio ac mai nhw yw'r oedolyn yn y berthynas. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Mae'n bwysig eich bod yn hawdd mynd atoch a'ch bod yn hygyrch i bobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys bod yn fodel rôl cadarnhaol trwy hyrwyddo arfer cydraddoldeb da, gwerthfawrogi amrywiaeth, hyrwyddo unigoliaeth a darparu cyngor, canllawiau a chefnogaeth fel bo'r angen. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Profiad o ddefnyddio E-bost Outlook, Microsoft Word, Excel, PowerPoint a/neu systemau TG eraill yn ogystal â gwybodaeth am blatfformau cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddir gan blant a phobl ifanc. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Gallu eirioli, cefnogi a hyrwyddo llais plentyn. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Ymgysylltu a hyrwyddo anghenion a nodau plant drwy gynllunio a darparu gweithgareddau, bod yn greadigol, dychmygus a bod â synnwyr cyffredinol o frwdfrydedd a hwyl. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| **Sgiliau** | | |
| Gallu cyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig yn Gymraeg. | Dymunol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Mae'r gallu i gyfathrebu yn Saesneg yn hanfodol. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Gallu gweithio'n greadigol gyda phobl ifanc mewn partneriaeth â'u teuluoedd, gweithiwr cymdeithasol ac adrannau ac asiantaethau eraill. | Hanfodol | |

| | | |
|---|---|---|
| Gallu trafod a thrwsio cydberthnasoedd gyda phlant/pobl ifanc, yn ddigon cryf i gadw’r plentyn/person ifanc yn ddiogel drwy gadw at y disgwyliadau y cytunwyd arnynt yn garedig ond yn gadarn, mewn modd meithringar, cefnogol a chyson | Hanfodol | |
| Rhaid gallu ymdrin â phroblemau a sefyllfaoedd critigol a gallu defnyddio strategaethau addas/arloesol wrth ymdrin â thymer, straen a gofid. | Hanfodol | |
| Gallu cofnodi digwyddiadau’n glir, cywir, effeithiol a llunio adroddiadau ysgrifenedig clir. | Hanfodol | |
| Gallu gweithio’n effeithiol ac effeithlon ar eich pen eich hun ac fel rhan o'r tîm preswyl ehangach | Hanfodol | |
| Gallu gwneud penderfyniadau/argymhellion, yn unigol ac fel rhan o dîm | | |
| Sefydlu cysylltiadau a chynnal gwybodaeth am wasanaethau. Datblygu perthnasoedd gweithio effeithiol gyda gwasanaethau statudol ac anstatudol eraill, e.e. Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS), Iechyd Meddwl Oedolion, Gofal Cymdeithasol i Blant a chydweithwyr Addysg, gwasanaethau ieuenctid ac ati. Hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i’r plant a’r bobl ifanc. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Cadw cofnodion swyddogol yn unol â pholisïau a gweithdrefnau’r adran a deddfwriaeth. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Gallu cyfrannu’n effeithiol at waith cynllunio a datblygu’r ddarpariaeth gwasanaeth. | Hanfodol | |
| Gallu gweithio oriau anghymdeithasol, sifftiau cysgu i mewn, a bod yn hyblyg i anghenion newidiol pobl ifanc | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Gallu gweithio dan bwysau a gallu gweithio ar eich liwt eich hun | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |

| | | |
|---|---|---|
| Gallu ymddwyn yn gyfrifol a bod yn atebol am arian a ddyrennir at ddibenion penodol. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Gallu cyflawni dyletswyddau sy'n ymwneud â rhedeg cartref o ddydd i ddydd fel coginio a glanhau ac ati | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Gallu cyflawni gweithgareddau sy'n cynnwys rhywfaint o godi a symud yn gorfforol a/neu ymyrraeth gorfforol ataliol | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Gallu gyrru a theithio o amgylch y wlad i ddiwallu anghenion y plant a phobl ifanc | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| **Cymwyseddau Ymddygiad Craidd Cyngor Sir y Fflint** | **Hanfodol** | **Sut fydd hyn yn cael ei asesu?** |
| **Cwsmer yn Gyntaf:** Deall ein cwsmeriaid (mewnol ac allanol) a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i fodloni eu disgwyliadau a rhagori arnynt. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| **Gweithio'n Ddoethach:** Bod yn glir o ran yr hyn y mae disgwyl i chi ei gyflawni yn eich swydd a meddu ar y sgiliau, y cymhelliant, y brwdfrydedd a'r ymrwymiad i weithio'n effeithiol. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| **Cydweithio/Gweithio mewn Partneriaeth:** Meithrin a chynnal perthnasoedd cadarnhaol er mwyn darparu gwell gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid a'n gweithwyr. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| **Cyfathrebu:** Sicrhau ein bod yn deall ein gilydd, yn parchu ein gilydd ac yn mynegi a rhannu syniadau a gwybodaeth yn glir. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| **Newid:** Addasu i newid a chyflwyno gwell ffyrdd o wneud pethau drwy greu syniadau a chwilio am y ffordd orau o ddarparu ein gwasanaethau. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| **Arwain a Rheoli:** Eich arwain a'ch cymell eich hunan ac eraill i wella perfformiad yn barhaus. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |